

Newid Busnes
Iechyd a Gofal Digidol Cymru



Swyddog Cefnogi Newid Busnes

Ydych chi'n berson rhagweithiol, brwdfrydig, ac yn ysu i rannu eich syniadau ffres?

Yna efallai mai rôl Swyddog Cefnogi Newid Busnes IGDC yw'r union beth rydych chi'n edrych amdano!



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd a Gofal
Digidol Cymru
Digital Health
and Care Wales

Rhwydwaith Darparu Newid Digidol
Digital Change Delivery Network

IGDC • DHCW

Dewch i Gwrdd â Phennaeth Newid Busnes

"Fi yw Harriet Stone a dwi wedi bod yn Bennaeth Newid Busnes yn lechyd a Gofal Digidol Cymru ers dros 7 mlynedd. Rydw i'n angerddol dros ddefnyddio offer a thechnegau Newid Busnes i ddylanwadu ar a chefnogi'r trawsnewidiad digidol sy'n digwydd ledled GIG Cymru.

Mae'r tîm Newid Busnes yn awyddus i fuddsoddi yn ein piblinell dalent, ac rydym yn falch iawn o fedru cynnig y cyfle i ymuno â'n Rhaglen Swyddog Cefnogi Newid Busnes.

Ymunwch â'n tîm a datblygwch y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sylfaenol ar gyfer pob elfen o Newid Busnes."




Sut Rydym yn Gweithio

Ers ei sefydlu yn 2016, mae'r Tîm Newid Busnes wedi tyfu bob blwyddyn er mwyn cefnogi Datrysiadau Digidol Cenedlaethol ar draws y Byrddau ac Ymddiriedolaethau lechyd yng Nghymru i symud tuag at ffyrdd digidol newydd o weithio.

**Mae Newid Busnes
yn IGDC yn cwmpasu
4 maes allweddol..**


Newid Busnes
Gweithredol

Rhwydwaith Darparu
Newid Digidol



Ymunwch â'n Tîm

Fel grŵp cyfoedion, dros gyfnod y rhaglen bydd gennych y cyfle i rannu profiadau a myfyrio ar eich dysgu.



Blwyddyn 1: Sylfaenol

Dros eich pedair wythnos gyntaf byddwch yn meithrin gwell dealltwriaeth o'r sefydliad a newid busnes, gyda mynediad at weithwyr profiadol o fewn IGDC.

Unwaith y byddwch wedi ymgylfarwyddo, byddwch yn ymwreiddio yn un o'n timau arobryn ac yn ymgymryd â'r cymhwysterau canlynol:

- Cymhwyster Gyrru Rhagoriaeth Gwasanaeth (Lefel 5)
- Cymhwyster Rhaglen Cenhadon Newid (Lefel 6)

Blwyddyn 2: Dilyniadol

Yn yr ail flwyddyn, cewch gyfle i ymgymryd â'r cymhwyster Hyfforddiant ar gyfer Newid (Lefel 7).

Wedi 18 mis, byddwch yn cyfarfod â'r Pennaeth Newid Busnes i drafod y cam nesaf yn eich gyrfa, a all gynnwys:

- Ymuno â Chynllun Graddedigion*
- Rôl yn Newid Busnes*
- Addysg Bellach
- Cyfleoedd eraill*

* Yn amodol ar gyfleoedd sydd ar gael ar ddiwedd y rhaglen

Beth sy'n cael ei gynnig?

- Cytundeb cyfnod penodol o 22 mis yn talu tua £25,147-£27,596*
- Cyfleoedd dysgu a datblygu rhagorol yn y gwaith
- Cyfleoedd i ennill cymwysterau gyda phwyntiau dysgu achrededig y gellir eu defnyddio tuag at ddysgu pellach
- Cerdyn Disgownt Golau Glas

Cysylltwch â ni

Ydych chi wedi cael eich ysbrydoli i ymuno â'n tîm?

Mae'r broses ymgeisio ar gyfer y rôl Swyddog Cefnogi Newid

Busnes yn cynnwys tri cham:

1. Ffurflen gais - dyddiad cau ar gyfer ceisiadau 22 Mawrth
2. Canolfan Asesu - wythnos yn dechrau 15 Ebrill
3. Cyfweiliadau Ail Gam - wythnos yn dechrau 29 Ebrill

I gael rhagor o wybodaeth am y rôl hon, gan gynnwys y ffurflen gais a chyngor ar sut i wneud cais, cysylltwch â: DHCW.DigitalChangeNetwork@wales.nhs.uk.

I gael rhagor o wybodaeth am dîm Newid Busnes IGDC, sganiwch y cod QR



Sganiwch i ddarganfod mwy!